

Crynodeb o Fil

Y Bil Adennill Costau Meddygol ar
gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

Ionawr 2013

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **[@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 12/2962

Crynodeb o Fil

Y Bil Adennill Costau Meddygol ar
gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

Ionawr 2013

Robyn Wilkinson ac Alys Thomas

Rhif dogfen: 13 / 005

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
2.	Cefndir	3
	2.1.Clefydau sy'n ymwneud ag asbestos.....	3
	2.2.Yr hyn y mae'r Bil yn ei gynnig	4
	2.3.Barn Llywodraeth Cymru	4
	2.4.Ymgynghoriad Mick Antoniw	5
3.	Darpariaethau deddfwriaethol presennol	7
	3.1.Deddf Traffig Ffyrdd (Ffioedd y GIG) 1999	7
	3.2.Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003...	7
	3.3.Atebolrwydd cyfreithiol am glefydau asbestos	8
4.	Cyd-destun polisi	9
5.	Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)	11
6.	Ymateb i'r Bil	13

Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)¹

1. Cyflwyniad

Dyddiad cyflwyno 3 Rhagfyr 2012.

Yr Aelod sy'n gyfrifol: Mick Antoniw AC

Y Pwyllgor Cynulliad sy'n cynnal gwaith craffu yn ystod Cyfnod 1 o'r Bil: Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cyhoeddodd y Pwyllgor **alwad am dystiolaeth** a ddaeth i ben ar **10 Ionawr 2013**.

Dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1: 8 Mawrth 2013.

Ar 21 Mawrth 2012, bu Mick Antoniw AC yn llwyddiannus mewn balot a gynhaliwyd o dan Reol Sefydlog 26.87 am yr hawl i gyflwyno Bil sy'n ymwneud ag adennill costau'r driniaeth feddygol a'r gofal a roddwyd i gleifion yng Nghymru sydd wedi dioddef clefyd sy'n ymwneud ag asbestos. Ar 16 Mai 2012, ar ôl dadl yn y Cyfarfod Llawn, cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol yn unfrydol y gallai'r AC osod Bil.

Wrth gyflwyno'r Bil, esboniodd Mr Antoniw ei ddiben:

Mae diben y Bil yn syml. Mewn achosion lle y gwnaed taliad digolledu yng nghyswllt dioddefwr clefyd sy'n ymwneud ag asbestos, ni waeth a gafwyd addefiad o atebolrwydd neu beidio, bydd gan Lywodraeth Cymru yr hawl i adennill cost y driniaeth feddygol a ddarparwyd. Nid yw'r Bil yn creu unrhyw hawl gyfreithiol newydd i daliad digolledu. Mae'n dweud yr hyn a ganlyn yn unig: lle y gwnaed taliad digolledu, gall Llywodraeth Cymru adennill cost y driniaeth feddygol gyda'r bwriad y bydd y costau a adennillwyd yn cael eu defnyddio i ddarparu cefnogaeth a chymorth meddygol ychwanegol i ddioddefwyr asbestos a'u teuluoedd. Fel y bydd yr Aelodau yn gweld yn y Bil a'r memorandwm esboniadol, gallai'r Bil adennill ychydig dros £2 filiwn bob blwyddyn. Bwriedir defnyddio'r arian hwn, er enghraifft, i ddarparu gofal nyrsio ychwanegol neu ofal ychwanegol mewn hosbis, cefnogaeth a chwnsela i deuluoedd, a chymorth meddygol o fathau eraill. Yn y modd hwn, credaf y gall y Bil wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd bywyd dioddefwyr asbestos, y mae'r clefyd galwedigaethol difrifol a chreulon hwn wedi dod i'w rhan; a gall wneud gwahaniaeth gwirioneddol hefyd i'w teuluoedd.²

Mae'r Aelod sy'n gyfrifol a'r Llywydd wedi datgan bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*³, pwnc 9, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, ysgrifennodd y Llywydd at gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gan ddweud:

¹ [Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos \(Cymru\) \[fel ar 9 Ionawr 2013\]](#)

² [Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2012 \[fel ar 3 Ionawr 2013\]](#)

³ [Deddf Llywodraeth Cymru 2006 \[fel ar 9 Ionawr 2013\]](#)

Rwyf wedi ysgrifennu at Mick Antoniw heddiw i gadarnhau fy marn, yn unol ag adran 110(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fod y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ac rwy'n bwriadu gwneud datganiad i'r perwyl hwnnw pan gyflwynir y Bil.

Fodd bynnag, nid oedd fy mhenderfyniad yn yr achos hwn yn un syml. Rwyf wedi cael cyngor y gellir cyflwyno dadleuon dilys nad yw nifer o'r darpariaethau yn y Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, o bosibl. Mae'r penderfyniad yr wyf wedi'i wneud o ran y meysydd hyn wedi golygu llawer o bwysu a mesur i sicrhau cydbwysedd.⁴

⁴ [Llythyr gan y Llywydd at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 3 Rhagfyr 2012 \[fel ar 9 Ionawr 2013\]](#)

2. Cefndir

2.1. Clefydau sy'n ymwneud ag asbestos

Mae asbestos (glas, brown a gwyn) yn cynnwys grŵp o fwynau sy'n bodoli'n naturiol fel bwndelau o ffibrau. Mae'r ffibrau hyn, a geir yn y pridd a'r creigiau mewn sawl rhan o'r byd, wedi'u gwneud o silicon, ocsigen ac elfennau eraill. Mae gan y ffibrau gryfder tynnol uchel, a gellir eu gwehyddu, ac maent yn ymwrthol i wres a'r rhan fwyaf o gemegau. Mae'r cofnod cyntaf o'r defnydd o asbestos yn dyddio'n ôl i mor gynnar â 2500 C.C. a daeth yn boblogaidd iawn yn ystod y Chwyldro Diwydiannol tua diwedd y 1800au.

Oherwydd eu priodweddau, defnyddiwyd ffibrau asbestos yn eang yn y DU drwy'r 1900au ac fe'u defnyddiwyd mewn amrywiaeth eang o nwyddau masnachol, gan gynnwys deunyddiau rhag tân ac insiwleiddio. Gwaharddwyd y defnydd o asbestos glas a brown yn y DU ym 1985 a chyflwynwyd gwaharddiad llwyr ar y defnydd o gynnyrch asbestos pan waharddwyd asbestos gwyn yn y DU ym 1999. Gall unrhyw adeilad a adeiladwyd cyn 2000 (tai, ffatrioedd, swyddfeydd, ysgolion, ysbytai, ac ati) gynnwys asbestos.

Mae deunyddiau asbestos sydd mewn cyflwr da yn ddiogel oni chaiff y ffibrau asbestos eu rhyddhau i'r aer, sy'n digwydd pan fydd deunyddiau'n cael eu difrodi. Pan gaiff y ffibrau hyn eu mewnanadlu, gallant beri clefydau difrifol sy'n arwain at tua 4,500 o farwolaethau bob blwyddyn yn y DU.

Gall dod i gysylltiad ag asbestos beri pedwar prif glefyd:

- **Mesothelioma** - canser leinin yr ysgyfaint; mae'n arwain at farwolaeth bob amser a chysylltiad ag asbestos sy'n ei achosi bron yn ddieithriad;
- Canser yr ysgyfaint **sy'n ymwneud ag asbestos** - sydd yn arwain at farwolaeth bron bob amser;
- **Asbestosis** - creithiau ar yr ysgyfaint. Nid yw'n arwain at farwolaeth bob amser ond mae'n gallu bod yn glefyd nychus iawn, sy'n cael effaith fawr ar ansawdd bywyd;
- **Clefyd plewrol anfalaen** - cyflwr nad yw'n ganseraidd sy'n effeithio ar leinin allanol yr ysgyfaint (pilenni'r ysgyfaint). Mae hyn yn cynnwys tewhau plewrol a all achosi anabledd a gall achosi placiau plewrol nad yw'n achosi anabledd fel rheol. Mae'r naill gyflwr â'r llall yn gysylltiedig â phryder a chynnydd sylweddol yn y risg o ddatblygu clefyd asbestos malaen marwol.

Gall gymryd rhwng 10 a 60 o flynyddoedd i ddatblygu symptomau ar ôl dod i gysylltiad ag asbestos.

2.2. *Yr hyn y mae'r Bil yn ei gynnig*

Ar 16 Mai 2012, cytunodd y Cynulliad y gallai Mick Antoniw gyflwyno Bil Aelod ar *Asbestos (Adennill Costau Meddygol)*. Yn dilyn dadl, pleidleisiodd 54 o Aelodau o blaid y Bil, ni phleidleisiodd neb yn ei erbyn ac nid oedd neb wedi ymatal. Er bod pob Aelod a siaradodd yn ystod y ddadl wedi cefnogi egwyddor y Bil, mynegwyd rhai pryderon, yn cynnwys y rhai a ganlyn:

- Diffyg gweithgareddau tebyg o fewn y GIG yng Nghymru a allai gynnig templed ar gyfer rhoi'r Bil ar waith, neu roi syniad o'r costau tebygol o roi cynllun o'r fath ar waith;
- Yr anhawster o ran nodi costau'r driniaeth pan mae'n digwydd dros gyfnod hir, a'r ffaith y gall fod gwahaniaeth mawr rhwng gwahanol achosion;
- Yr anawsterau a achosir gan y cyfnod cuddni rhwng dod i gysylltiad ag asbestos a chael diagnosis o glefyd sy'n ymwneud ag asbestos.
- Materion o ran preswyliaeth bresennol neu breswyliaeth yn y gorffennol, a materion trawsffiniol;
- Y cydbwysedd rhwng y costau a gaiff eu hadennill gan y cynllun a'r costau o weinyddu cynllun o'r fath;
- Beth fyddai'n digwydd os mai'r Llywodraeth yw'r cyflogwr sy'n gyfrifol am y taliad digolledu;
- Beth fydd y costau perthnasol, pwy fydd yn eu cyfrifo, a sut;
- Sut y byddai'r arian a godir yn cyflawni nod Mick Antoniw ar gyfer y Bil, sef cefnogi'r driniaeth o glefydau sy'n ymwneud ag asbestos;
- Pa gyflyrau eraill (fel cryndod bys gwyn neu glefyd cronig ataliol yr ysgyfaint) allai fod yn destun yr egwyddor o adennill costau'r GIG oddi wrth bartïon esgeulus.⁵

2.3. *Barn Llywodraeth Cymru*

Mynegodd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Bil yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn. Fel rhan o'i sylwadau, dywedodd:

Felly, mae'r uchelgais sy'n gefn i Fil arfaethedig Mick, sef y dylid adennill costau'r GIG sy'n gysylltiedig â thrin y clefydau hyn, yn rhywbeth y dylem i gyd ei groesawu. Wrth gwrs, bydd angen datrys materion ymarferol a chyfreithiol. Ar hyn o bryd, nid oes gweithgareddau y gellir eu cymharu'n uniongyrchol â hyn o fewn GIG Cymru a allai gynnig templed ar gyfer gweithredu neu awgrym ynglŷn â chost debygol gweinyddu cynllun. Gweinyddir y trefniadau presennol o dan ddeddfwriaeth y cynllun adennill costau am anafiadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Caf ar ddeall hefyd fod Mick yn bwriadu i'r Bil gynnwys darpariaeth i'r holl

⁵ [Cofnod y Trafodion, 16 Mai 2012](#) [fel ar 9 Ionawr 2013]

gostau gael eu hadennill, gan gynnwys costau gofal sylfaenol a chymunedol. Nodaf hyn, ond mae angen inni gadw mewn cof yr anawsterau ymarferol posibl a allai godi o ran cael gwybod pa driniaeth a gafwyd dros gyfnod hir. Bydd angen inni feddwl hefyd am faterion sy'n ymwneud â phreswyliaeth ar hyn o bryd ac yn y gorffennol, ymhle y cafodd pobl eu trin, ac a yw hyn yn effeithio ar adennill y costau. Felly, mae llawer o bethau y mae angen eu hystyried a'u harchwilio'n fanylach, a gwn fod Mick yn ymwybodol ohonynt. Serch hynny, rwyf yn credu'n gryf na ddylai hyn ein hatal ond y dylem yn hytrach weithio'n galed i ganfod atebion i'r problemau hyn. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi egwyddor y Bil arfaethedig ac y bydd yn cefnogi'r cynnig heddiw.⁶

Soniodd y Gweinidog am fwriad Mick Antoniw i'r Bil "gynnwys darpariaeth i'r holl gostau gael eu hadennill, gan gynnwys costau gofal sylfaenol a chymunedol".

Mae'r Bil yn cyfyngu ychydig ar y cwmpas hwn, gan eithrio:

- Gwasanaethau meddygol sylfaenol (e.e. gofal gan feddyg teulu), gwasanaethau deintyddol sylfaenol neu wasanaethau offthalmig sylfaenol; a
- Llety a gwasanaethau i gleifion preifat (gan gynnwys cyfleusterau'r GIG).⁷

2.4. *Ymgynghoriad Mick Antoniw*

Ym mis Mai 2012, cynhaliodd Mick Antoniw AC ymgynghoriad i geisio barn am egwyddorion cyffredinol y Bil a'i ddibenion. Cysylltodd â 31 o sefydliadau a chafodd ateb gan 13 ohonynt. O'r rhain, roedd y 12 sefydliad a ganlyn o blaid y Bil:

- Ymwybyddiaeth Asbestos a Chefnogaeth Cymru;
- Cymdeithas Cyfreithwyr Niwed Personol Cymru;
- Fforwm Grwpiau Cymorth Dioddefwyr Asbestos y DU;
- Clydeside Action on Asbestos;
- Undeb Frigâd Dân;
- Macmillan Cymru;
- Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth;
- Tenovus;
- UNSAIN Cymru;
- GMB;
- Mesothelioma UK; ac
- Unite.

Heblaw am gefnogaeth gyffredinol i amcanion y Bil, soniwyd am y materion a ganlyn gan gefnogwyr y Bil:

⁶ [Cofnod y Trafodion, 16 Mai 2012](#) [fel ar 9 Ionawr 2013]

⁷ [Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos \(Cymru\), Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol, Tachwedd 2012](#) [fel ar 9 Ionawr 2013]

- Cymeradwyo'r bwriad i ddefnyddio'r arian a godir i helpu dioddefwyr clefydau asbestos a'u teuluoedd, a chael eglurder ynghylch sut y caiff hyn ei wneud;
- Cefnogaeth i'r egwyddor, yr ymddengys fod y Bil hwn yn ei chadarnhau, sef mai'r "llygrwr sy'n talu".

Yr unig grŵp a oedd yn gwrthwynebu'r Bil oedd Cymdeithas Yswirwyr Prydain. Gwnaeth y Gymdeithas y pwyntiau a ganlyn:

- Mae'r GIG eisoes wedi cael arian am gost triniaeth drwy gyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol yr hawlwyd eu hunain;
- Mae anfanteision ymarferol ac ariannol ehangu cynllun adennill costau presennol y GIG i glefydau yn gwrthbwysu'r buddion posibl (yn ôl y Gymdeithas, mae Comisiwn y Gyfraith wedi cefnogi'r pwynt hwn);
- Roedd yn holi a yw'r Bil yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Yn ôl dehongliad y Gymdeithas, gallai'r Bil hwn berthyn i faes "gwasanaethau ariannol" yn hytrach na "iechyd a gwasanaethau iechyd", fel yr awgrymir yn y Memorandwm Esboniadol.

3. Darpariaethau deddfwriaethol presennol

Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol, yr egwyddor sy'n sail i'r Bil yw:

y dylai'r gost i bwrs y wlad o ddarparu gwasanaethau'r GIG gael ei hadennill oddi wrth y sawl sydd wedi achosi (neu yr honnir iddo achosi) y niwed a arweiniodd at yr angen am y gwasanaethau hynny.

Mae'r egwyddor hon eisoes yn sail i ddeddfwriaeth arall sydd eisoes yn bodoli yn y DU.⁸ Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth gyffelyb y mae'r Memorandwm Esboniadol yn ei thrafod yn cyfyngu'r 'niwed' hwn i **anafiadau**, yn hytrach na **chlefydau**, sef yr hyn a geir yn y Bil.

3.1. *Deddf Traffig Ffyrdd (Ffioedd y GIG) 1999*⁹

Mae'r Ddeddf hon ("Deddf 1999") yn ei gwneud yn ofynnol, pan fo person wedi cael triniaeth mewn un o ysbytai'r GIG am anafiadau mewn damwain traffig ar y ffordd a'i fod yn cael taliad digolledu am yr anafiadau hynny, fod y person a wnaeth y taliad yn atebol am daliad i'r Ysgrifennydd Gwladol am y gost o ddarparu triniaeth mewn ysbyty'r GIG.

Cyn Deddf 1990, gallai'r ysbytai gasglu taliadau. Trosglwyddodd Deddf 1999 y gwaith hwn i'r Ysgrifennydd Gwladol, sy'n rhoi tystysgrifau am y ffioedd sy'n ddyledus. Caiff hyn ei wneud ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol gan yr Uned Adfer lawndal, sy'n rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau.

3.2. *Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003*¹⁰

Mae *Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003* ("Deddf 2003") yn ehangu'r cynllun adennill costau a amlinellwyd yn Neddf 1999. O ganlyniad i Ddeddf 2003, mae unrhyw berson sy'n gwneud taliad digolledu o ganlyniad i anaf corfforol neu seicolegol yn gyfrifol am dalu costau i'r GIG am y driniaeth a gafodd y person a anafwyd mewn ysbyty'r gwasanaeth iechyd o ganlyniad i'r anaf a/neu am ddarparu gwasanaethau ambiwlans y GIG i'r person o ganlyniad i'r anaf.

Fel gyda Deddf 1999, mae Deddf 2003 yn darparu y dylai'r swm i'w adennill gael ei nodi mewn tystysgrif o ffioedd y GIG. Caiff y swm a roddir ar y dystysgrif ei gyfrifo yn unol â rheoliadau.

⁸ [Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos \(Cymru\), Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol, Tachwedd 2012](#) [fel ar 9 Ionawr 2013]

⁹ [Deddf Traffig Ffyrdd \(Ffioedd y GIG\) 1999](#) [fel ar 7 Tachwedd 2012] (Saesneg yn unig)

¹⁰ [Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Iechyd Cymunedol a Safonau\) 2003](#) [fel ar 7 Tachwedd 2012]

Nid yw triniaeth a roddir o ganlyniad i glefyd annibynnol, fel asbestosis, yn rhan o'r cynllun, ond mae triniaeth a roddir o ganlyniad i glefyd sy'n gysylltiedig yn benodol â'r anaf a gafwyd – er enghraifft, septisemia o ganlyniad i dorri coes – yn rhan o'r cynllun.

Mae Deddf 2003 yn nodi, os yw yswiriwr yn atebol am yr anaf o dan ei bolisi yswiriant, mae hefyd yn atebol am unrhyw ffioedd y GIG y gellir eu hadennill (er bod rheoliadau yn gallu cyfyngu ar y swm).

3.3. Atebolrwydd cyfreithiol am glefydau asbestos

Gwnaed y cysylltiad rhwng asbestos a ffibrosis yr ysgyfaint yn ystod degawdau cynnar yr ugeinfed ganrif ac arweiniodd at y rheoliadau cyntaf i reoli asbestos ym 1931 (*Rheoliadau'r Diwydiant Asbestos 1931* – cafwyd deddfwriaeth bellach ers hynny, a'r diweddaraf ohonynt yw *Rheoliadau Rheoli Asbestos yn y Gwaith 2006*). Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn rhoi rhagor o fanylion am y deddfwriaeth bresennol sy'n rheoleiddio'r defnydd o asbestos, yn ogystal â dyletswyddau cyffredinol sy'n deillio o *Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974*. At hynny, gall clefydau sy'n ymwneud ag asbestos hefyd arwain at gymryd achos yn erbyn cyflogwr am dorri dyletswydd gofal o dan gyfraith gyffredin (esgeulustra).

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan, "Mewn llawer o achosion pan geir diagnosis o glefyd sy'n ymwneud ag asbestos, mae modd sefydlu bod achos o esgeulustra a thorri deddfau iechyd a diogelwch wedi digwydd drwy gael cymorth cyfreithiol arbenigol." Mae'n werth nodi nad yw'r **Bil yn creu unrhyw hawl newydd am iawndal lle na fyddai hawl eisoes yn bodoli.**

4. Cyd-destun polisi

Mae'r gost o drin clefyd sy'n ymwneud ag asbestos yn gosod baich ariannol sylweddol ar y GIG yng Nghymru, o leiaf £2 miliwn y flwyddyn yn ôl cyfraddau achosion a chostau enghreifftiol. Pan geir diagnosis o'r clefyd, gall y gofal gynnwys ymweliadau â meddyg teulu, cyfeiriad at feddygon ymgynghorol i gael triniaeth radiolog, biopsïau, radiotherapi, cemotherapi, llawdriniaethau ac, mewn sawl achos yn y diwedd, gofal lliniarol.

Mae'r Bil yn ehangu yng Nghymru yr egwyddor sy'n sail i'r cynllun o dan Ddeddf 2003 fod y rhai sy'n gyfrifol neu yr honnir eu bod yn gyfrifol am achosi niwed yn ad-dalu costau'r driniaeth. Er bod adran 150 o Ddeddf 2003 yn cyfyngu'r costau y gellir eu hadennill mewn perthynas â thrin *anaf* (nad yw, yn y cyd-destun hwn, yn cynnwys unrhyw glefyd annibynnol), mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i adennill ffioedd y gost i'r GIG yng Nghymru o ofal a thriniaeth mewn perthynas â chlefyd sy'n ymwneud ag asbestos.

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn rhoi gwybodaeth am ei ddiben a'r effaith y bwriedir iddo ei gael:

- Bydd y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i adennill, oddi wrth y digolledwr, gost triniaeth a gwasanaethau meddygol penodol a ddarparwyd neu a ariannwyd gan GIG Cymru ar gyfer cleifion clefyd sy'n ymwneud ag asbestos (mesothelioma, tewhau plewrol, canser yr ysgyfaint sy'n ymwneud ag asbestos ac asbestosis).
- Nid yw'r Bil yn creu unrhyw hawl newydd am iawndal lle na fyddai hawl eisoes yn bodoli, dim ond ar ôl i'r dioddefwr asbestos neu ei gynrychiolwyr personol gael setliad neu ddyfarniad yn ymwneud â chais am iawndal y gall Gweinidogion Cymru adennill cost triniaeth feddygol benodol. Fel sy'n wir am Ddeddf 2003, bydd taliad digolledu yn gweithredu fel sbardun i adennill costau, p'un a yw'r parti sy'n gwneud y taliad yn addef atebolrwydd ai peidio.¹¹

Mae Mick Antoniw wedi datgan ei fwriad cyn hyn y bydd y costau meddygol a gaiff eu hadennill yn cael eu dyrannu gan y Gweinidog Iechyd yn flynyddol er budd cyffredinol dioddefwyr asbestos a'u teuluoedd gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer gofal lliniarol a thriniaeth arall.¹²

Fodd bynnag, nid yw'r Bil mor rhagnodol â hynny ynghylch sut y dylid gwario'r costau meddygol a adennillir. Mae'r Bil yn datgan y bydd yr arian yn mynd i Weinidogion Cymru, gyda'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio:

¹¹ [Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos \(Cymru\), Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol, Tachwedd 2012](#)

¹²Gwefan Mick Antoniw AC, [y Bil Asbestos](#) [fel ar 15 Tachwedd 2012] (Saesneg yn unig)

[...] bydd y symiau sy'n cael eu hadennill yn cael eu dychwelyd i'w cadw gan Weinidogion Cymru. O fewn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol, byddai cais yn cael ei wneud am ddyraniad incwm ar gyfer y costau sydd wedi'u hadennill i Brif Grŵp Gwariant yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, ac am ddyrannu adnoddau i'r un Prif Grŵp Gwariant ar gyfer darparu gwasanaethau i ddioddefwyr asbestos a'u teuluoedd. Bydd yr arian a adenillir yn talu am gostau gweinyddu'r cynllun a gallai ddarparu cyllid at fudd cyffredinol dioddefwyr asbestos a'u teuluoedd, gan gynnwys cefnogaeth i ofal lliniarol a thriniaeth arall. Byddai cyllid o'r fath yn gyfraniad at gostau'r GIG yng Nghymru yn y dyfodol.

Er bod y Memorandwm yn nodi y gellir defnyddio'r costau a adenillir "er budd cyffredinol dioddefwyr asbestos a'u teuluoedd", ni fydd gorfodaeth i hyn ddigwydd. Fodd bynnag, mae Adran 16 yn pennu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, wrth ddyrannu'r ffioedd a ad-delir a dderbynnir o dan y Ddeddf i Gronfa Gyfunol Cymru, **roi sylw** i ailddyrrannu swm sy'n cyfateb i'r swm a adenillir i'r GIG yng Nghymru at ddibenion trin clefydau sy'n ymwneud ag asbestos, neu wasanaethau sy'n ymwneud a chlefydau o'r fath.

5. Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

Mae'r Bil yn cynnwys 21 adran ac un Atodlen.

Mae **Adran 1** yn rhoi **trosolwg** o'r Bil. Yn gwyno, mae'r Bil yn:

- gosod atebolrwydd ar bersonau y mae taliadau digolledu'n cael eu gwneud ganddynt neu ar eu rhan i ddiodefwyr, neu mewn cysylltiad â diodefwyr clefydau sy'n ymwneud ag asbestos, i dalu ffioedd mewn cysylltiad â gwasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a ddarperir i'r diodefwyr o ganlyniad i'r clefydau;
- yn gwneud darpariaeth ar gyfer ardystio swm y ffioedd sydd i'w talu, ar gyfer talu'r ffioedd, ar gyfer adolygiadau ac apelau ac ynghylch gwybodaeth;
- yn estyn sicrwydd yswiriant personau sy'n atebol i'w hatebolrwydd am dalu'r ffioedd.

Mae **Adran 2** yn ymdrin â'r **atebolrwydd am dalu ffioedd** a'r swm i'w dalu.

Mae **Adran 3** yn diffinio ystyr y prif dermau yn y Bil.

Mae **Adran 4** yn gwneud darpariaeth ar gyfer **taliadau a eithrir** sydd wedi'u rhestru yn **Atodlen 1**.

Mae **Adran 5** yn ymdrin â phersonau sy'n gwneud taliadau digolledu **yn gwneud ceisiadau am dystysgrifau** i Weinidogion Cymru.

Mae **Adran 6** yn nodi'r **wybodaeth** y dylid ei rhoi mewn tystysgrifau.

Mae **Adran 7** yn cyfeirio at **y cyfnod amser ar gyfer talu ffioedd**.

Mae **Adran 8** yn cyfeirio at **adennill ffioedd** gan Weinidogion Cymru.

Mae **Adran 9** yn cyfeirio at **adolygu tystysgrifau**.

Mae **Adran 10** yn ymdrin **ag apelau yn erbyn tystysgrifau a phenderfyniadau hawlildio**.

Mae **Adran 11** yn cyfeirio at **apelau i dribiwnlys**.

Mae **Adran 12** yn ymdrin â **darparu gwybodaeth**. Mae'r system ar gyfer adennill ffioedd y GIG yn dibynnu ar drosglwyddo gwybodaeth gan y partion gwahanol sy'n ymwneud â'r digwyddiadau, o nodi'r clefyd i dalu iawndal.

Mae **Adran 13** yn ymdrin â **defnyddio gwybodaeth**.

Mae **Adran 14** yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar gyfer gwneud **cyfandaliadau, taliadau cyfnodol ac ati** mewn perthynas â thriniaeth.

Mae **Adran 15** yn cyfeirio at **atebolrwydd yswirwyr**. Mae'n datgan, os yw taliad digolledu sy'n cael ei wneud wedi'i gwmpasu, i unrhyw raddau, gan bolisi yswiriant, bydd y polisi hwnnw hefyd yn cwmpasu unrhyw atebolrwydd am dalu

ffioedd perthnasol mewn perthynas ag unrhyw wasanaethau'r GIG a ddarparwyd ar gyfer y dioddefwr o ganlyniad i'r clefyd.

Mae **Adran 16** yn pennu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, wrth ddyrannu'r ffioedd a ad-delir, **roi sylw** i ailddyrrannu swm sy'n cyfateb i'r swm a adenillir i'r GIG yng Nghymru at **ddibenion trin clefydau sy'n ymwneud ag asbestos, neu wasanaethau sy'n ymwneud a chlefydau o'r fath.**

Mae **Adran 17** yn darparu y bydd y cynllun i adennill costau'r GIG yn ymestyn i'r **Goron** (h.y. y Frenhines ac Adrannau'r Llywodraeth) ac eithrio lle mae'r taliad yn daliad a eithrir fel y nodir yn yr Atodlen i'r Bil.

Mae **Adran 18** yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynglŷn â phwerau yn y Bil sy'n caniatáu i is-ddeddfwriaeth ar ffurf gorchmynion neu reoliadau gael ei gwneud.

Mae **Adran 19** yn nodi ystyr y termau amrywiol a ddefnyddir yn y Bil.

Mae **Adran 20** yn ymdrin â **chychwyn** y darpariaethau yn y Bil.

6. Ymateb i'r Bil

Yn ei ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn wrth gyflwyno'r Bil, dywedodd Mick Antoniw:

Pan siaradais am y cynnig gwreiddiol a oedd yn ceisio caniatâd, gofynnwyd cwestiwn dilys ynghylch faint y byddai'n ei gostio i weinyddu cynllun o'r fath. Fel y gellir ei weld yn y memorandwm esboniadol ac o'r gwaith ymchwil sydd wedi'i wneud hyd yma - ac, yn wir, sy'n parhau - drwy ddefnyddio system yr uned adfer iawndal sydd eisoes yn bodoli ar gyfer adennill costau meddygol yn achos damweiniau traffig ffyrdd, bydd y gost o weinyddu yn fach iawn. Yn y pen draw, mater i Lywodraeth Cymru yw pennu'r system adennill costau i'w gweithredu. Fodd bynnag, drwy ddefnyddio'r uned adfer iawndal, a thrwy ddefnyddio system tariffau sy'n debyg i'r system a ddefnyddir i adennill costau meddygol yn achos damweiniau traffig ffyrdd, gellir cadw cyfanswm y costau o dan £50,000 y flwyddyn. Rwyf o'r farn fod hon yn gost fach o ystyried y budd a allai deillio o adennill y costau meddygol.¹³

Dywedodd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

Byddai'r elw o'r system adennill costau arfaethedig yn galluogi'r GIG yng Nghymru i ariannu gwasanaethau gwell i ddiodefwyr asbestos a'u teuluoedd. Croesawaf farn Mick ar yr effaith y gallai'r Bil ei chael ar y gofal a'r driniaeth sydd ar gael i ddiodefwyr, ac ar sut y gallai'r darpariaethau o fewn ei Fil sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth gael eu gweithredu yn y ffordd orau er mwyn cyflawni ei fwriadau yn llawn. Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle i ailwysleisio cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Fil Mick, ac edrychwn ymlaen at gydweithio i greu cyfraith dda ar y mater hwn.¹⁴

Croesawodd Nick Ramsay AC y Bil ar ran y Ceidwadwyr, ond gofynnodd am esboniad o nifer o faterion:

Ym mis Mai, cododd fy nghyd-Aelod Darren Millar faterion trawsffiniol y mae angen gwneud gwaith pellach arnynt. Felly, yn dilyn ymlaen o'r materion a godwyd, a allech egluro a fydd Llywodraeth Cymru yn rhyddhau canllawiau ar sefyllfaoedd lle mae pobl wedi byw ac wedi cael triniaeth yng Nghymru ac yn Lloegr? Mae angen inni wybod beth fydd yn digwydd mewn achosion lle mae pobl wedi cael eu salwch pan oeddent yn gweithio dros y ffin [...] Mae pobl wedi sôn am bryderon ynghylch sgîl-ffeithiau'r ddeddfwriaeth ar gyfer yswiriant ac afiechydon eraill. Rydych wedi crybwyll yswiriant, ac mae wedi cael ei godi yn helaeth yn y cyfarfodydd briffio y buom ynddynt. Pa ystyriaeth yr ydych wedi'i rhoi i'r posibilrwydd y gallai premiymau yswiriant godi, wrth i yswirwyr ddod yn fwy ymwybodol o'r taliadau uwch posibl i gwsmeriaid yng Nghymru? ¹⁵

Atebodd Mr Antoniw:

O ran pwy fydd yn atebol, gallaf ddweud y bydd ond yn berthnasol i gostau meddygol yr aethpwyd iddynt gan y GIG yng Nghymru, p'un a yw'r amlygiad i asbestos wedi digwydd yng Nghymru neu yn Lloegr. O ran premiymau yswiriant, mae llawer o'r atebolrwydd hwn, oherwydd bod gan asbestos gyfnod datblygu cudd o 10 i 60 mlynedd, yn ymwneud ag amlygiad sydd eisoes wedi digwydd, y mae premiymau yswiriant eisoes wedi'u talu amdano. Felly, ni fydd unrhyw effaith o ran yr achosion hynny a gyflwynir o'r gorffennol nac ar gyfer y

¹³ [Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2012 \[fel ar 3 Ionawr 2013\]](#)

¹⁴ [Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2012 \[fel ar 3 Ionawr 2013\]](#)

¹⁵ [Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2012 \[fel ar 3 Ionawr 2013\]](#)

dyfodol agos. O ran premiymau yn y dyfodol, credaf mai fy ateb, yn gyntaf, fydd mai dyma'r peth iawn i'w wneud i'r dioddefwyr a'u teuluoedd ac, yn ail, y ffordd orau y gall cyflogwr osgoi unrhyw atebolrwydd yn y dyfodol a chadw eu premiymau i lawr yw sicrhau bod ganddynt systemau digonol ar waith i ddiogelu rhag asbestos a monitro amlygiad i asbestos ar gyfer y dyfodol.¹⁶

Ar ran Plaid Cymru, croesawodd Elin Jones AC hefyd y Bil, ond holodd pam na ddylid talu'r costau a gaiff eu hadennill i'r byrddau iechyd lleol:

Eich bwriad yn y Bil yw i'r arian sy'n cael ei godi fynd i'r Llywodraeth a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn hytrach nag i'r byrddau iechyd lle mae'r gwariant wedi digwydd. Oni fyddai'n well o bosibl creu system lle, os byddai unigolyn yn Aberteifi wedi defnyddio'r GIG ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, fod yr arian yn mynd yn ôl yn yr achos hwnnw at y GIG ym mwrdd Hywel Dda? Os deallaf yn iawn, o dan y gyfundrefn sy'n adennill costau mewn achosion damweiniau car, mae'r gost yn mynd yn ôl at y byrddau iechyd unigol. Felly, pam penderfynu mynd i lawr y trywydd hwn o'r arian yn mynd yn ôl at y Llywodraeth, yn hytrach na'r arian yn mynd at y byrddau iechyd yn unigol?¹⁷

Atebodd Mr Antoniw:

Diben hynny yw rhoi mynegiant clir o fwriad mai'r nod, drwy adennill yr arian hwn, yw gwneud darpariaeth benodol i helpu dioddefwyr asbestos a'u teuluoedd. Nid oeddem am iddo fynd i mewn i dwll du, fel petai, coffrau byrddau iechyd lleol, ond yn hytrach roeddem am iddo fod yn gynnyrch clir iawn ar ddiwedd y broses. Am y rheswm hwnnw, teimlwyd mai'r ffordd i edrych ar y mater oedd sut y gellir cael y budd mwyaf ohono fel swm cyfunol. Pe bai'n cael ei roi i'r byrddau iechyd, efallai na fyddai gan un bwrdd iechyd lawer o achosion, ac efallai na fydd swm bach yn cael llawer o effaith. Gall fod yn wir mai dyma fydd yn digwydd, i bob pwrpas, yn y diwedd, ond y nod oedd rhoi cyfle i ddefnyddio budd cyfunol y swm llawn i gael yr effaith fwyaf i bob dioddefwr asbestos a'i deulu.¹⁸

Ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, mynegodd Kirsty Williams AC gefnogaeth i'r Bil, ond cododd rai pwyntiau pellach i gael eglurhad arnynt:

Fodd bynnag, roedd un pwynt penodol, yn ychwanegol at y pwyntiau a godwyd eisoes, yr hoffwn gyfeirio atynt. Fy nealltwriaeth i o'r ddeddfwriaeth hon yw ei bod ond yn adlewyrchu'r costau i'r GIG. Heb os, mae'n debyg mai dyna lle y bydd y rhan fwyaf o'r costau yn codi, ond rwyf yn sicr, Mick, o'ch profiad o weithio gyda'r teuluoedd yr effeithiwyd arnynt, eich bod yn gwybod eu bod hefyd yn aml iawn yn ddibynnol ar wasanaethau nad ydynt yn cael eu darparu gan y GIG, megis gwasanaethau cymdeithasol traddodiadol a ddarperir gan awdurdod lleol unigol, neu wasanaethau a ddarperir gan fudiad hosbis nad yw'n derbyn cyllid yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, neu fwrdd iechyd lleol neu wasanaethau cymorth eraill a all fod o fudd i'r unigolyn hwnnw a'i deulu. A allech gadarnhau pa un a yw hynny'n wir, ac a ydych yn teimlo bod angen cyfyngu ar atebolrwydd i gostau sy'n gysylltiedig â'r GIG yn hytrach na chostau i'r pwrs cyhoeddus cyfan, a oedd wedi eich cymell, yn ôl pob tebyg, i ddod â'r mater hwn ymlaen yn y lle cyntaf?

¹⁶ [Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2012 \[fel ar 3 Ionawr 2013\]](#)

¹⁷ [Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2012 \[fel ar 3 Ionawr 2013\]](#)

¹⁸ [Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2012 \[fel ar 3 Ionawr 2013\]](#)

O gofio mai eich bwriad yw cronni adnoddau—gallaf ddeall pam y byddech yn gwneud hynny, oherwydd efallai mai ychydig iawn o achosion fydd gan un bwrdd iechyd lleol ac efallai na fydd adennill y gost honno yn gwneud gwahaniaeth mawr—a allech roi syniad inni ar beth rydych yn disgwyl i'r arian gael ei wario a sut y gellir sicrhau bod gan y gwasanaethau neu'r buddsoddiadau hynny sylfaen gynaliadwy, o gofio ein bod yn ansicr, neu nad ydym yn gwybod yn glir, faint o achosion fyddai'n dod ymlaen ac yn llwyddo i hawlio arian yn ôl?¹⁹

Esboniodd Mr Antoniw:

Diolch ichi am y sylwadau defnyddiol hynny. Rydych yn gywir i ddweud fy mod, mewn trafodaethau gydag amrywiaeth o unigolion a sefydliadau, wedi edrych yn ofalus ar gyfanswm y costau. Y man cychwyn oedd sut i sicrhau eich bod yn cwmpasu pob un. Er enghraifft, byddwch yn gwybod mai'r bwriad yw hepgor costau gofal sylfaenol o'r system dariff. Y rheswm am hynny yw er mwyn cadw'r system mor syml ac mor debyg i'r cynllun traffig ar y ffyrdd â phosibl, oherwydd cyn gynted ag y byddwch yn dechrau edrych i mewn i bob math o amrywiadau cost, sy'n gallu bod yn eithaf sylweddol yn y mathau hyn o achosion, rydych yn dechrau creu biwrocratiaeth bosibl sy'n galw am fwy o staff a gallech ganfod eich bod mewn sefyllfa lle rydych yn gwario £1 er mwyn adennill 1c. Felly, er symlrwydd ac er mwyn gallu dweud wrth y Cynulliad hwn bod hon yn system effeithlon sy'n cynnwys cyn lleied o fiwrocratiaeth â phosibl lle y caiff y rhan fwyaf o'r arian ei ddefnyddio er budd y teuluoedd, rydym wedi gorfod torri rhai meysydd ohoni. Byddai'n drist pe bawn yn dod yma a dweud ein bod yn gallu adennill swm o arian, ond y bydd 50% neu 60% ohono yn mynd ar weinyddu. Dyna pam rydym wedi gweithio ar hyn yn y ffordd y gwnaethom.

Rydych yn gywir ynghylch cynaliadwyedd y system. Bydd angen ei ystyried yn ofalus. Gwyddom fod yna rai patrymau eithaf rhagweladwy o ran y driniaeth i ddiodefwyr asbestos, yn enwedig y rhai sydd â chanser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos, asbestosis a mesothelioma. Yn sicr gallwn nodi meysydd lle mae angen amlwg am gymorth ychwanegol.²⁰

¹⁹ [Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2012 \[fel ar 3 Ionawr 2013\]](#)

²⁰ [Cofnod y Trafodion, 5 Rhagfyr 2012 \[fel ar 3 Ionawr 2013\]](#)